Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Llanisien Fach
Heol Uchaf
Rhiwbeina
Caerdydd
CF14 6SS

27/01/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Ionawr 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Llanisien Fach yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran yr argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol, ynghyd ag un o flaenoriaethau gwella presennol yr ysgol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella medrau Cymraeg disgyblion

- Mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm cynyddol i gryfhau medrau llafaredd Cymraeg disgyblion. Mae hyn wedi gwella cysondeb wrth addysgu Cymraeg gan alluogi disgyblion i ddyfnhau eu medrau iaith lafar yn fwy systematig.
- Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn defnyddio gwersi Cymraeg mynych, ffocysedig i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn effeithiol. Maent yn modelu Cymraeg llafar yn dda, gan ddefnyddio ynganu clir a gramadeg priodol, sy'n helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i siarad Cymraeg yn gywir.
- Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn sicrhau cydbwysedd rhwng addysgu uniongyrchol a dulliau mwy rhagweithiol, fel chwarae gemau iaith, sy'n enny ymgysylltiad disgyblion yn llwyddiannus, ac yn hyrwyddo eu brwdfrydedd dros siarad Cymraeg. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu amrywiaeth gynyddol o batrymau a geirfa ac yn mwynhau defnyddio'r Gymraeg.
- Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion siarad Cymraeg gyda phartneriaid, sy'n cefnogi datblygiad eu rhuglder a'u hyder.
- Mae arweinwyr wedi blaenoriaethu dysgu proffesiynol pwrpasol i gryfhau medrau Cymraeg staff. Er enghraifft, mae rhaglen hyfforddi a mentora a sefydlwyd yn

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

ddiweddar dan arweiniad athro sy'n siarad Cymraeg yn gwella hyder ac arfer athrawon o ran addysgu a defnyddio'r Gymraeg.
- Mae'r ysgol wedi datblygu pecyn cymorth defnyddiol yn ddiweddar i hyrwyddo Cymraeg llafar trwy gydol y dydd. Mae hyn yn helpu cynyddu defnydd bob dydd o'r Gymraeg gan staff a disgyblion, er bod hyn mewn cyfnod cymharol gynnar.

## Sicrhau bod camau nesaf disgyblion yn cael eu nodi'n effeithiol yn ystod gwersi a thros gyfnod

- Mae athrawon yn defnyddio asesu parhaus yn eu haddysgu yn dda. Maent yn gwneud defnydd buddiol o holi ac arsylwi i wirio dealltwriaeth disgyblion a nodi camdybiaethau wrth iddynt godi. Pan mae hyn yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn darparu adborth amserol yn ystod gwersi, gan addasu eu haddysgu'n fedrus i ymateb i anghenion disgyblion sy'n dechrau dod i'r amlwg.
- Mae arweinwyr a staff wedi datblygu dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd disgyblion dros gyfnod. Mae defnydd cyson athrawon o 'lwybrau dilyniant' cytûn yn eu helpu i nodi a chynllunio'r camau nesaf.
- Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd disgyblion yn galluogi athrawon i nodi a mynd i'r afael â phatrymau mewn dysgu a bylchau mewn gwybodaeth neu fedrau. Mae hyn yn sicrhau bod camau nesaf, gan gynnwys ar gyfer y disgyblion hynny yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yr ysgol, yn adeiladu'n briodol ar yr hyn y mae disgyblion unigol eisoes yn ei wybod ac yn gallu ei wneud.
- Mae arweinwyr ac athrawon yn ystyried ystod o wybodaeth berthnasol i werthuso cynnydd a lles disgyblion yn gyfannol. Pan gaiff cynorthwywyr addysgu eu cynnwys yn y trafodaethau hyn, mae hyn yn helpu sicrhau bod camau nesaf yn cael eu deall yn eang a bod cymorth yn cael ei dargedu'n effeithiol.
- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall eu camau nesaf. Maent yn darparu adborth clir y gellir gweithredu arno, ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymateb a chymhwyso hyn mewn gwersi dilynol. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i gymryd perchnogaeth o'u dysgu ac yn galluogi athrawon i fireinio camau nesaf disgyblion gyda manwl gywirdeb cynyddol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/llanishen-fach-primary-school-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol